

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	12 MEDI 2018
TEITL YR ADRODDIAD:	DATBLYGU AELODAU
ADRODDIAD GAN:	RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL
SWYDDOG CYSWLLT:	MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512)
PWRPAS YR ADRODDIAD:	RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU

CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar gynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad gyflwynwyd ar y 14eg o Fawrth 2018.

Cyflwynwyd cynllun newydd ar gyfer 2018/19 ac a gafodd ei mabwysiadu gan y cyngor llawn ar y 15fed o Fai 2018. Cafodd y cynllun ei llunio gydag mewnbwn gan yr Uwch Swyddogion ac Arweinyddion Grwpiau er mwyn ymateb i anghenion yr Awdurdod hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol yma.

CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Fel cynllun sy'n esblygu mae'r cynllun Datblygu eisoes wedi ei ddiwygio i adlewyrchu yr anghenion hyfforddiant sydd wedi ei gynnig ers fy adroddiad diwethaf, gweler atodiad 1.

Rhwng 1af o Ebrill 2018 a'r 14eg o Fedi 2108, mae 10 sesiwn datblygu ffurfiol yn/wedi ei cynnig. Mae'r sesiynau gynigir yn cynnwys sesiynau Cyllid/Diogelu/techyd a Diogelwch a Craffu.

Lle'n addas, mae Aelodau Lleyg ac hefyd Aelodau o'r Pwyllgor Safonau'n cael gwahoddiad i sesiynau hyfforddiant penodol.

COSTAU

Mae'r hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno wedi bod yn gyfuniad o rai sydd wedi ei harwain gan swyddogion yn ogystal a darparwyr allanol, gyda chyfraniad sylweddol mewn buddsoddiad yn y rhaglen Hyfforddiant Craffu.

Yn ôl yr arfer, mae presenoldeb ar sesiynau datblygu'n hanfodol i sicrhau gwerth am arian.

E-DDYSGU

Mae peth ymdrech wedi ei wneud i annog Aelodau Etholedig i ymgysgu ei hunain gyda'r ystod o raglenni E-Ddysgu sydd ar gael iddynt.

Er mwyn cynorthwyo Aelodau Etholedig gyda hyn, mae'r Swyddog E-Ddysgu wedi cyflwyno nifer o sesiynau i Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu a Safonau, er mwyn rhoi gwybodaeth, sgiliau ac hyder i unigolion ddefnyddio'r rhaglenni.

Ers y 1af o Ebrill 2018 mae Aelodau Etholedig wedi bod i mewn i'r modiwlau isod:

Y Cynghorydd Ward Effeithiol (x8)
Sgiliau Siarad yn Gyhoeddus (x5)
Cyflwyniad i Graffu (x5)
Penderfyniadau ar gyfer Cenhedlaethau'r Dyfodol (x2)
Rhiantu Corfforaethol (x2)

GWERTHUSO

Mae gwerthuso hyfforddiant yn cael ei annog o hyd er mwyn adnabod os ydi'r hyfforddiant yn cyrraedd anghenion Aelodau ac er mwyn adnabod unrhyw anghenion ychwanegol.

ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU

Mae trefniadau ar gyfer cwblhau ADP ar gyfer y flwyddyn ariannol yma wedi ei cyd-lynu gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r anghenion hyfforddiant sydd wedi ei adnabod yn rhai o natur generic.

CRYNODEB

Bydd y cynllun datblygu'n parhau i gael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cynigion a gynigir i Aelodau Etholedig yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd.

Bydd y Rheolwr Datblygu AD yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyd weithio gyda Awdurdodau arall yn y Gogledd i sicrhau fod unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei gomisiynu yn gost effeithiol.

ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y Rhaglen Datblygu Aelodau.

Miriam Williams
Rheolwr Datblygu AD
Medi 2018

RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19			
(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd lau/Gwener gan osgoi'r p'nawn lau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)			
Gweithgaredd	Cynulleidfa	Dull	Pryd
Rheoli'r Trysorlys	Pob Aelod Etholedig	Richard Basson	05/06/2018
Materion Diogelu	Pob Aelod Etholedig (M)	Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd)	gohirwyd
Rhiantu Corfforaethol	Pob Aelod Etholedig	Fôn Roberts – Pennaeth Gwasanaeth Plant	gohirwyd
Hyfforddiant Sgrwtini	Pob Aelod Etholedig	David McGrath	13 & 14 Medi 2018
Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)	Pob Aelod Etholedig	Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion	26/7/2018
Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Pob Aelod Etholedig	Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig.	Dyddiad i'w gadarnhau
"Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)".	Pob Aelod Etholedig (M)	Gweithdy ac E-Ddysgu	Dyddiad i'w gadarnhau
Cyflwyniad i Gydraddoldeb	Pob Aelod Etholedig (M)	E-Ddysgu/Gweithdy	Dyddiad i'w gadarnhau
Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion	Pob Aelod Etholedig	Pennaeth Gwasanaeth Democraidd /aelod profiadol uchelradd/e-ddysgu	Dyddiad i'w gadarnhau

Llywodraeth Fodern – recordio hyfforddiant	Pob Aelod Etholedig	Swyddog Mewnol	Mai 2018 (cynhaliwyd sesiynau briffio) Medi 2018
Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd)	Pob Cadeirydd	Hwyluswyr allanol/E-Ddysgu	13 & 14 Medi 2018
Rhaglen Arweinyddiaeth CLIC	Enwebir Aelod Etholedig	Gweithdai Rhanbarthol	Tachwedd 2018
Trwyddedu - Diweddariad	Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu	Swyddogion Mewnol	Dyddiad i'w gadarnhau
Iechyd a Diogelwch – IOSHH Arwain yn Ddiogel	Pob Aelod Etholedig (M)	Catrin Love	12/7/2018
Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein	Pob Aelod Etholedig	Catrin Love	12/7/2018
Cynllunio <ul style="list-style-type: none"> • Materion Llifogydd • Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio 	Pob Aelod Etholedig	Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddogion Mewnol	Dyddiad i'w gadarnhau

MODIWLAU E-DDYSGU AR GAEL

- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol
- Ysgrifennu Effeithiol
- Rheoli Eich Hun a'ch Amser
- Deallusrwydd Emosiynol
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Atal
- Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ymwybyddiaeth Straen
- Croeso Cymraeg Gwaith
- Moesau a Safonau
- Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol

- Cadeirio Cyfarfodydd
- Sgiliau Siarad Cyhoeddus
- Cyflwyniad i Graffu
- Y Cynghorydd Ward Effeithiol
- Rhiantu Corfforaethol

(M) = Mandadol

Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.

Noder: bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon